

201- Rhif (Cy.)

201- No. (W.)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

ROAD TRAFFIC, WALES

Gorchymyn Cefnffordd yr A40
(Pontsenni, Powys) (Gwahardd
Aros) 201-

The A40 Trunk Road
(Sennybridge, Powys) (Prohibition
of Waiting) Order 201-

Gwnaed ***** 201-

Made ***** 201-

Yn dod i rym ***** 201-

Coming into force ***** 201-

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer Cefnffordd yr A40 Rhaglan i Lanymddyfri, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adrannau 1(1), 2(1), (2) a 4(2) a 124 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1), a pharagraff 27 o Atodlen 9 iddi, ac ar ôl ymgynghori â Phrif Swyddog Heddlu Dyfed-Powys, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

The Welsh Ministers, as traffic authority for the A40 Raglan to Llandovery Trunk Road, in exercise of the powers conferred upon them by sections 1(1), 2(1), 2(2), 4(2) and 124 of, and paragraph 27 of Schedule 9 to the Road Traffic Regulation Act 1984(1) and after consultation with the Chief Officer of the Dyfed-Powys Police, make this Order.

Enwi, Cychwyn a Dehongli

Title, Commencement and Interpretation

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A40 (Pontsenni, Powys) (Gwahardd Aros) 201- a daw i rym ar ***** 201-.

1. The title of the Order is the A40 Trunk Road (Sennybridge, Powys) (Prohibition of Waiting) Order 201- and it comes into force on ***** 201-.

2. Yn y Gorchymyn hwn:

2. In this Order:

mae i "bathodyn person anabl" ("*disabled person's badge*") yr ystyr a roddir yn rheoliad 2(1) o Reoliadau Personau Anabl (Bathodynnau ar gyfer Cerbydau Modur) (Cymru) 2000(2);

"disabled person's badge" ("*bathodyn person anabl*") has the meaning given in regulation 2(1) of The Disabled Persons (Badges for Motor Vehicles) (Wales) Regulations 2000(2);

mae i "disg parcio" ("*parking disc*") yr ystyr a roddir yn rheoliad 8(5) o Reoliadau Gorchymynion Traffig Awdurdodau Lleol (Esemptiadau ar gyfer Personau Anabl) (Cymru) 2000(3);

"parking disc" ("*disg parcio*") has the meaning given in regulation 8(5) of The Local Authorities' Traffic Orders (Exemptions for Disabled Persons) (Wales) Regulations 2000(3);

- (1) 1984 p.27; diwygiwyd adrannau 1(1), 2(1) a (2) gan adran 168 o Ddeddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991 (p.22) a pharagraffau 17 a 18 o Atodlen 8 iddi, a diwygiwyd adran 1(1) gan baragraff 36(1) o Atodlen 22 i Ddeddf yr Amgylchedd 1995 (p.25). Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32), a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.
- (2) O.S. 2000/1786 (Cy.123), a ddiwygiwyd gan O.S. 2014/3082. Mae offerynnau diwygio eraill ond nid yw'r un ohonynt yn berthnasol.
- (3) O.S. 2000/1785 (Cy.122).

- (1) 1984 c.27; sections 1(1), 2(1) and (2) were amended by the New Roads and Street Works Act 1991 (c.22), section 168 and Schedule 8, paragraphs 17 and 18, section 1(1) was amended by paragraph 36(1) of Schedule 22 to the Environment Act 1995 (c.25). By virtue of S.I. 1999/672, and section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006 (c.32), these powers are now exercisable by the Welsh Ministers in relation to Wales.
- (2) S.I. 2000/1786 (W.123), amended by S.I. 2014/3082. There are other amending instruments but none is relevant.
- (3) S.I. 2000/1785 (W.122).

ystyr “y gefnffordd” (“*the trunk road*”) yw Cefnffordd yr A40 Rhaglan i Lanymddyfri;

mae i “y safle perthnasol” (“*the relevant position*”) yr ystyr a roddir yn rheoliad 4 o Reoliadau Gorchmynion Traffig Awdurdodau Lleol (Esemptiadau ar gyfer Personau Anabl) (Cymru) 2000.

Gwaharddiad

Gwahardd aros ar unrhyw adeg

3. Ac eithrio fel a ddarperir yn erthygl 4, ni chaiff neb beri na chaniatáu i unrhyw gerbyd aros ar ochrau'r darnau o'r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

Esemptiadau

4. (1) Nid oes dim yn erthygl 3 yn ei gwneud yn anghyfreithlon i beri neu i ganiatáu i unrhyw gerbyd aros ar ochrau'r darnau o'r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen cyhyd ag sy'n angenrheidiol i alluogi:-

(a) person i fynd i mewn i gerbyd, neu i ddod allan ohono;

(b) nwyddau i gael eu llwytho ar y cerbyd neu eu dadlwytho ohono;

(c) y cerbyd, os na ellir ei ddefnyddio'n hwylus at y diben hwnnw ar unrhyw ffordd arall, i gael ei ddefnyddio mewn cysylltiad ag unrhyw un neu ragor o'r gweithrediadau a ganlyn, sef:

- (i) gwaith adeiladu, gwaith diwydiannol neu waith dymchwel;
- (ii) symud unrhyw rwystr i draffig;
- (iii) cynnal y chadw, gwella neu ailadeiladu'r darnau hynny o'r gefnffordd; neu
- (iv) gosod, codi, addasu neu atgyweirio, yn y darnau hynny o'r gefnffordd, neu mewn tir cyfagos, unrhyw garthffos neu unrhyw brif bibell, unrhyw bibell neu unrhyw gyfarpar ar gyfer cyflenwi nwy, dŵr neu drydan neu unrhyw gyfarpar cyfathrebu electronig fel y'i diffinnir ym mharagraff 5 o Atodlen 3A i Ddeddf Cyfathrebiadau 2003(4);

“the relevant position” (“*y safle perthnasol*”) has the meaning given by regulation 4 of The Local Authorities' Traffic Orders (Exemptions for Disabled Persons) (Wales) Regulations 2000;

“the trunk road” (“*y gefnffordd*”) means the A40 Raglan to Llandovery Trunk Road.

Prohibition

Prohibition of waiting at any time

3. Except as provided in article 4 no person may cause or permit any vehicle to wait on the sides of the lengths of the trunk road specified in the Schedule to this Order.

Exemptions

4. (1) Nothing in article 3 renders it unlawful to cause or permit any vehicle to wait on the sides of the lengths of the trunk road for so long as may be necessary to enable:-

(a) a person to board or alight from a vehicle;

(b) goods to be loaded on or unloaded from a vehicle;

(c) the vehicle to be used in connection with any of the following operations:

- (i) building, industrial or demolition operations;
- (ii) the removal of any obstruction to traffic;
- (iii) the maintenance, improvement or reconstruction of the said lengths of the trunk road; or
- (iv) the laying, erection, alteration, or repair in, or in land adjacent to the said lengths of the trunk road of any sewer or of any main, pipe or apparatus for the supply of gas, water or electricity or any electronic communications apparatus as defined in paragraph 5 of Schedule 3A to the Communications Act 2003(4);

(4) 2003 (p.21) Mewn osodwyd Atodlen 3A gan baragraff 1 o Atodlen 1 i Ddeddf yr Economi Ddigidol 2017 (p.30).

(4) 2003 (c.21) Schedule 3A was inserted by paragraph 1 of Schedule 1 to the Digital Economy Act 2017 (c.30).

(d) y cerbyd, i gael ei ddefnyddio yng ngwasanaeth awdurdod lleol neu awdurdod dŵr yn unol â swyddogaethau statudol;

(e) y cerbyd i gymryd petrol, olew, dŵr neu aer o unrhyw garej ar y darnau hynny o'r gefnffordd neu'n gyfagos iddi;

(f) y cerbyd i gael ei ddefnyddio at ddibenion y frigâd dân, y gwasanaeth ambiwlans neu'r heddlu;

(g) y cerbyd i stopio pan fo'r person sydd â rheolaeth arno'n gwneud y canlynol:

- (i) pan fydd yn ofynnol yn ôl y gyfraith iddo stopio;
- (ii) pan fydd yn gorfod stopio er mwyn osgoi damwain;
- (iii) pan gaiff ei rwystro rhag mynd yn ei flaen; neu
- (iv) pan fo'n gweithredu yn ôl cyfarwyddyd neu â chaniatâd cwnstabl heddlu, swyddog cymorth cymunedol yr heddlu neu swyddog gorfodi sifil.

(2) Nid oes dim yn erthygl 3 yn ei gwneud yn anghyfreithlon i beri neu i ganiatáu i gerbyd sy'n dangos yn y safle perthnasol fathodyn person anabl a disg barcio (y mae'r gyrrwr, neu berson arall sy'n gyfrifol am y cerbyd, wedi nodi arnynt yr amser pryd y dechreuodd y cyfnod aros) aros ar ochrau'r darnau o'r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn am gyfnod nad yw'n fwy na 3 awr, ar yr amod bod awr o leiaf yn gwahanu'r cyfnod hwnnw a chyfnod blaenorol y bu'r un cerbyd yn aros ar yr un diwrnod ar y gefnffordd.

Dirymu

5. Mae Gorchymyn Cefnffordd (yr A40) (Pontsenni, Powys) (Gwahardd a Chyfyngu ar Aros) 1992(5) drwy hyn wedi ei ddirymu.

(d) the vehicle, to be used in the service of a local authority or a water authority in pursuance of statutory functions;

(e) the vehicle to take petrol, oil, water or air from any garage situated on or adjacent to the said length of trunk road or;

(f) the vehicle to be used for fire brigade, ambulance or police purposes, or

(g) the vehicle to stop when the person in control of it:

- (i) is required by law to stop;
- (ii) is obliged to stop in order to avoid an accident;
- (iii) is prevented from proceeding; or
- (iv) is acting upon the direction, or with the permission, of a police constable, police community support officer or civil enforcement officer.

(2) Nothing in article 3 renders it unlawful to cause or permit a vehicle which displays in the relevant position a disabled person's badge and a parking disc (on which the driver, or other person in charge of the vehicle, has marked the time at which the period of waiting began) to wait on the sides of the lengths of the trunk road specified in the Schedule to this Order for a period not exceeding 3 hours, being a period separated by an interval of at least 1 hour from a previous period of waiting by the same vehicle on the same day on the trunk road.

Revocation

5. The Trunk Road (A40) (Sennybridge, Powys) (Prohibition and Restriction of Waiting) Order 1992(5) is hereby revoked.

Llofnodwyd o dan awdurdod Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig

***** 2018

Nina Ley

Pennaeth yr Uned Fusnes, Rheoli'r Rhwydwaith
Llywodraeth Cymru

YR ATODLEN

GWAHARDD AROS AR UNRHYW ADEG AR UNRHYW DDIWROND

1. Y darn o ochr gogledd-orllewinol y gefnffordd sy'n ymestyn i gyfeiriad y de-orllewin am bellter o 10 metr o'i chyffordd â ffordd fynediad yr U0309 i wersyll ymarfer Pontsenni.
2. Y darn o ochr gogledd-orllewinol y gefnffordd sy'n ymestyn i gyfeiriad y gogledd-ddwyrain am bellter o 315 o fetrau o'i chyffordd â ffordd fynediad yr U0309 i wersyll ymarfer Pontsenni.
3. Y darn o ochr gogledd-orllewinol y gefnffordd sy'n ymestyn i gyfeiriad y de-orllewin am bellter o 17 o fetrau o bwynt 184 o fetrau i'r de-orllewin o'i chyffordd â ffordd y C0048 i Goedwaungar.
4. Y darn o ochr gogledd-orllewinol y gefnffordd sy'n ymestyn i gyfeiriad y de-orllewin am bellter o 141 o fetrau o'i chyffordd â ffordd y C0048 i Goedwaungar.
5. Y darn o ochr gogledd-orllewinol y gefnffordd sy'n ymestyn i gyfeiriad y gogledd-ddwyrain am bellter o 75 o fetrau o bwynt 32 o fetrau i'r gogledd-ddwyrain o'i chyffordd â ffordd y C0048 i Goedwaungar.

GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A40 (PONTISENNI, POWYS) (GWAHARDD AROS) 201-

Mae Gweinidogion Cymru yn bwriadu gwneud Gorchymyn o dan adrannau 1(1), 2(1), 2(2), 4(2) a 124 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984, a pharagraff 27 o Atodlen 9 iddi.

Effaith y Gorchymyn arfaethedig fydd gwahardd aros ar unrhyw adeg ar ochrau cefnffordd yr A40 Rhaglan i

Signed under authority of the Cabinet Secretary for Economy and Transport, one of the Welsh Ministers.

Dated

***** 2018

Nina Ley

Head of Business Unit, Network Management
Welsh Government

SCHEDULE

PROHIBITION OF WAITING AT ANY TIME ON ANY DAY

1. The length of the north western side of the trunk road that extends in a south westerly direction for 10 metres from its junction with the U0309 access Road to Sennybridge Training camp.
2. The length of the north western side of the trunk road that extends in a north easterly direction for 315 metres from its junction with the U0309 access Road to Sennybridge Training camp.
3. The length of the north western side of the trunk road that extends in a south westerly direction for 17 metres from a point 184 metres south west of its junction with the C0048 Road to Coedwaungar.
4. The length of the north western side of the trunk road that extends in a south westerly direction for 141 metres from its junction with the C0048 Road to Coedwaungar.
5. The length of the north western side of the trunk road that extends in a north easterly direction for 75 metres from a point 32 metres north east of its junction with the C0048 Road to Coedwaungar.

THE A40 TRUNK ROAD (SENNYBRIDGE, POWYS) (PROHIBITION OF WAITING) ORDER 201-

The Welsh Ministers propose to make an Order under sections 1(1), 2(1), 2(2), 4(2) and 124 of, and paragraph 27 of Schedule 9 to, the Road Traffic Regulation Act 1984.

The effect of the proposed Order will be to prohibit waiting at any time on the sides of the A40 Raglan to

Lanymddyfri o'r enw High Street ym Mhontsenni yn Sir Powys a bennir yn yr Atodlen i'r Hysbysiad hwn.

Mae aros wedi ei wahardd ar hyn y bryd ar rai darnau o'r gefnffordd dan sylw yn rhinwedd Gorchymyn Cefnffordd (yr A40) (Pontsenni, Powys) (Gwahardd a Chyfyngu ar Aros) 1992 a gaiff ei ddirymu a'i ailddeddfu gan y Gorchymyn arfaethedig.

Yn ystod cyfnod o 21 o ddiwrnodau o 22 Mawrth 2018, gellir edrych ar gopi o'r Gorchymyn arfaethedig, ynghyd â Phlan a Datganiad o'r Rhesymau dros wneud y Gorchymyn, yn ystod oriau swyddfa arferol yn Swyddfa Bost Pontsenni, Aberhonddu, Powys LD3 8PG ac yn Swyddfeydd Cyngor Sir Powys, Neuadd Brycheiniog, Ffordd Cambrian, Aberhonddu, LD3 7HR neu gellir cael copïau'n rhad ac am ddim o'r cyfeiriad isod gan ddyfynnu'r cyfeirnod qA1304574.

Rhaid anfon unrhyw wrthwynebiadau yn ysgrifenedig, gan nodi ar ba sail y'u gwneir, i: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ erbyn 11 Ebrill 2018. **Noder:** Os ydych yn dymuno gwrthwynebu, cefnogi neu gyflwyno sylwadau, efallai y bydd arnom angen ymgynghori â phobl a sefydliadau y tu allan i Lywodraeth Cymru. Fel rhan o'r broses o ymgynghori ag eraill caniateir i ni roi gwybodaeth iddynt, gan gynnwys gwybodaeth yr ydych wedi ei rhoi i ni a'ch data personol. Ni fyddwn, fodd bynnag, yn datgelu eich manylion personol ond pan fo hynny'n angenrheidiol er mwyn ein galluogi i ymdrin â'r materion yr ydych wedi eu dwyn i'n sylw.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn drafft, yr Hysbysiad a'r Datganiad o'r Rhesymau ar www.llyw.cymru (Detholer: 'Deddfwriaeth', 'Is-ddeddfwriaeth', 'Deddfwriaeth Ddrafft', 'Offerynnau Statudol Lleol Drafft', 'Gorchmynion Traffig Parhaol', '2018').

Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

M D BURNELL
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

YR ATODLEN

GWAHARDD AROS AR UNRHYW ADEG AR UNRHYW DDIWROND

1. Y darn o ochr gogledd-orllewinol y gefnffordd sy'n ymestyn i gyfeiriad y de-

Llandoverly Trunk Road known as High Street at Sennybridge in the County of Powys specified in the Schedule to this Notice.

Waiting is currently prohibited on some lengths of the trunk road concerned by virtue of The Trunk Road (A40) (Sennybridge, Powys) (Prohibition and Restriction of Waiting) Order 1992 which will be revoked and re-enacted by the proposed Order.

During a period of 21 days from 22 March 2018, a copy of the proposed Order, together with a Plan and a Statement of Reasons for making the Order, may be inspected during normal office hours at Sennybridge Post Office, Brecon, Powys LD3 8PG and Powys County Council, Neuadd Brycheiniog, Cambrian Way, Brecon, LD3 7HR or may be obtained free of charge from the address below quoting the reference number qA1304574.

Objections, specifying the grounds on which they are made, must be sent in writing to the Welsh Government, Orders Branch, Transport, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ by 11 April 2018. **Please note:** Should you wish to object, support or make representations, we may need to consult with people and organisations outside of the Welsh Government. As part of the process of consulting with others we may pass information to them, including information you have given us and your personal data. We will however, only disclose your personal details where it is necessary to do so to enable us to deal with issues you have brought to our attention.

A copy of the draft Order, Notice and Statement of Reasons can be viewed at www.gov.wales (Select: 'Legislation', 'Subordinate Legislation', 'Draft Legislation', 'Draft Local Statutory Instruments', 'Permanent Traffic Orders', '2018').

A copy of this Notice in larger print can be obtained from the Welsh Government, Orders Branch, Transport, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.

M D BURNELL
Transport
Welsh Government

SCHEDULE

PROHIBITION OF WAITING AT ANY TIME ON ANY DAY

1. The length of the north western side of the trunk road that extends in a south westerly

orllewin am bellter o 10 metr o'i chyffordd â ffordd fynediad yr U0309 i wersyll ymarfer Pontsenni.

2. Y darn o ochr gogledd-orllewinol y gefnffordd sy'n ymestyn i gyfeiriad y gogledd-ddwyrain am bellter o 315 o fetrau o'i chyffordd â ffordd fynediad yr U0309 i wersyll ymarfer Pontsenni.
3. Y darn o ochr gogledd-orllewinol y gefnffordd sy'n ymestyn i gyfeiriad y de-orllewin am bellter o 17 o fetrau o bwynt 184 o fetrau i'r de-orllewin o'i chyffordd â ffordd y C0048 i Goedwaungar.
4. Y darn o ochr gogledd-orllewinol y gefnffordd sy'n ymestyn i gyfeiriad y de-orllewin am bellter o 141 o fetrau o'i chyffordd â ffordd y C0048 i Goedwaungar.
5. Y darn o ochr gogledd-orllewinol y gefnffordd sy'n ymestyn i gyfeiriad y gogledd-ddwyrain am bellter o 75 o fetrau o bwynt 32 o fetrau i'r gogledd-ddwyrain o'i chyffordd â ffordd y C0048 i Goedwaungar.

**GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A40
(PONTSENNI, POWYS) (GWAHARDD AROS)
201-**

DATGANIAD O'R RHESYMAU

Mae angen y Gorchymyn arfaethedig er mwyn cwtogi'r darnau o'r gefnffordd lle ceir cyfyngiadau parcio presennol ar High Street, Pontsenni. Ystyrir bod y cyfyngiadau presennol ar barcio yn rhy llym, ac felly bwriedir dirymu rhai o'r cyfyngiadau er mwyn caniatáu parcio ychwanegol ar y stryd yn y pentref.

Mae'r cynnig hwn yn dilyn ymgynghoriad a gynhaliwyd ar ran Gweinidogion Cymru gan gynrychiolwyr Llywodraeth Cymru ac Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd Cymru gyda Chyngor Cymuned Maes-car a Chynghorydd Sir Lleol i adolygu'r cyfyngiadau parcio presennol hyn.

Bydd y Gorchymyn arfaethedig yn diddymu 'Gorchymyn Cefnffordd (yr A40) (Pontsenni, Powys) (Gwahardd a Chyfyngu ar Aros) 1992'.

direction for 10 metres from its junction with the U0309 access Road to Sennybridge Training camp.

2. The length of the north western side of the trunk road that extends in a north easterly direction for 315 metres from its junction with the U0309 access Road to Sennybridge Training camp.
3. The length of the north western side of the trunk road that extends in a south westerly direction for 17 metres from a point 184 metres south west of its junction with the C0048 Road to Coedwaungar.
4. The length of the north western side of the trunk road that extends in a south westerly direction for 141 metres from its junction with the C0048 Road to Coedwaungar.
5. The length of the north western side of the trunk road that extends in a north easterly direction for 75 metres from a point 32 metres north east of its junction with the C0048 Road to Coedwaungar.

**THE A40 TRUNK ROAD (SENNYBRIDGE,
POWYS) (PROHIBITION OF WAITING)
ORDER 201-**

STATEMENT OF REASONS

The proposed Order is required to reduce lengths of existing parking restrictions on High Street, Sennybridge. The current parking restrictions are considered too stringent and, therefore, it is intended that some of the restrictions will be revoked to allow additional on street parking within the village.

This proposal follows a consultation carried out on behalf of Welsh Ministers by Welsh Government representatives and the North Wales Trunk Road Agency with the Maescar Community Council and local County Councillor to review these current parking restrictions.

The proposed Order will revoke the 'The Trunk Road (A40) (Sennybridge, Powys) (Prohibition and Restriction of Waiting) Order 1992'.